# Y System Rheoli Amgylcheddol
# 8.1.9 Rheoli Gwastraff

Cyhoeddwyd: Medi 2019

| | |
|---|---|
| **Awdur:** | **Fiona Wheatley** |
| **Cymeradwywyd gan:** | **Fiona Abbott** |
| **Dyddiad yr Adolygiad** | **06/09/2025** |
| **Cyf. Cymal:** | **Ecocampus a ISO14001(2015)** |

**PEIDIWCH Â ARGRAFFU'R WEITHDREFN HON YN ANGENRHEIDIOL**



# Rheoli Gwastraff

## 1 Diben

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl weithgareddau a gynhelir ar ei safle yn cael eu gwneud gan ddilyn y safonau uchaf posibl o ran diogelwch, iechyd a'r amgylchedd.

Mae'r ddogfen hon yn nodi sut y bydd y Brifysgol yn rheoli'r modd y caiff ei gwastraff ei storio, ei drosglwyddo, ei ailddefnyddio a'i waredu, gan gynnwys rheoli dogfennaeth wastraff berthnasol. Mae'n:

- mynd i'r afael â'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gwastraff;
- amlinellu sut y caiff dogfennau gwastraff eu storio a'u cynnal;
- amlinellu'r broses o storio a throsglwyddo gwastraff i bobl/busnesau ag awdurdod, heb niweidio'r amgylchedd
- disgrifio'r gydymffurfiaeth â deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol

## 2 Diffiniadau

**Uwch Reolwyr** – person neu grŵp o bobl sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli sefydliad ar y lefel uchaf.

**Risgiau a Chyfleoedd** – effeithiau andwyol posibl (bygythiadau) ac effeithiau buddiol posibl (cyfleoedd).

**Proses** – set o weithgareddau rhyngberthynol neu ryngweithiol sy'n trawsnewid mewnbynnau yn allbynnau.

## 3 Cyfrifoldebau

| | |
|---|---|
| **Tîm Cyfrifoldeb Corfforaethol** | Darparu templedi i gefnogi arferion rheoli gwastraff y Brifysgol. Rhoi gwybodaeth ac arweiniad ar bob mater sy'n ymwneud â rheoli gwastraff, yn fewnol neu'n allanol i weithrediadau Prifysgol Abertawe. Cynnig cymorth i aelodau staff a myfyrwyr, yn ôl y galw. |
| **Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu** | Yn cydlynu a datblygu gwasanaethau rheoli ac ailgylchu gwastraff ar draws holl safleoedd Prifysgol Abertawe. Yn gyfrifol am sicrhau bod gwastraff yn cael ei gasglu gan gontractwyr trwyddedig a'i fod yn cael ei waredu mewn cyfleusterau awdurdodedig, ac yn sicrhau bod nodiadau trosglwyddo ac anfon gwastraff yn cael eu |

| | |
|---|---|
| | storio yn ôl yr angen. Yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu. |
| **Rheolwr Amgylcheddol** | Yn datblygu strategaeth gwastraff ac yn sicrhau cydymffurfiaeth drwy EMS y Brifysgol. |
| **Pennaeth Gweithrediadau Campws** | Prif ddeiliad y gyllideb ar gyfer contract rheoli gwastraff y Brifysgol a datblygu rheoli gwastraff yn y strategaeth Cynaliadwyedd. |
| **Mitie/ Veolia (prif gontractiwr gwastraff)** | Casglu gwastraff ar y campws yn ddyddiol a'i drosglwyddo i gyfleusterau trwyddedig oddi ar y safle yn unol â gofynion yr hierarchaeth wastraff. Ceir darparwr gwasanaethau gwastraff arbenigol pan fydd ei angen ar y Brifysgol dan gontract. Darparu'r holl ddogfennaeth dyletswydd gofal o ran gwastraff e.e. WTN, anfonebu strwythuredig ar gyfer gwasanaethau a data casglu yn ôl pwysau. |
| **Mitie – gweithredwyr gwastraff** | Yn cydlynu ac yn goruchwylio casgliadau biniau gwastraff ar y campws yn ddyddiol. Yn cydlynu holl gasgliadau sgipiau ar y campws. Cynnal a glanhau'r holl gyrtiau gwastraff. Gwasanaethu'r holl finiau pedwarplyg allanol ar Gampws y Bae, 10 ar Gampws Singelton a chasglu unrhyw wastraff rhydd ar y campysau wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Cwblhau'r holl geisiadau am waith gwastraff mewnol dan gontract. Hwyluso mynediad i'r prif gyrtiau pan fydd angen. |
| **Staff Tiroedd** | Cynnal a chadw tiroedd y Brifysgol gan gynnwys; codi sbwriel,<br>a chasglu gwastraff rhydd ar y campysau, y tu allan i brif ardaloedd cyrtiau gwastraff dynodedig ar y campysau. Mynd â'r gwastraff dan sylw i'r cwrt gwastraff agosaf, neu i'r prif gwrt i'w ailgylchu gan Veolia. Bydd casgliadau sylweddol o wastraff oherwydd tipio anghyfreithlon yn cael ei waredu gan Veolia drwy gais Gorchymyn Gwaith. |
| **Mitie Staff Glanhau** | Yn cael gwared ar wastraff o'r holl finiau mewnol ac yn ei drosglwyddo i finiau olwynion yn y mannau gwastraff penodol. |
| **Pob Aelod Staff** | Yn sicrhau bod yr holl ffrydiau gwastraff yn cael eu gwaredu yn y biniau cywir a/neu mewn ffordd gymeradwy amgen. |

## 4 Dogfennau Perthnasol

- **Cofrestr Agweddau ac Effeithiau:** Manylir ar agweddau amgylcheddol perthnasol ac effeithiau amgylcheddol cysylltiedig yng Nghofrestr Effeithiau'r Brifysgol a/neu'r Coleg/Uned Gwasanaeth Proffesiynol.
- **Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff (“WTN”)/Nodiadau Anfon Gwastraff (“WCN”):** Dogfennau swyddogol yw nodiadau trosglwyddo a nodiadau anfon gwastraff sy’n cofnodi symudiad gwastraff o safleoedd Brifysgol, a chânt eu

storio gan y Swyddog Ailgylchu a Gwastraff neu swyddog adrannol perthnasol.

- **Nodiadau Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff ("WMGN"):** Mae'r nodiadau cyfarwyddyd rheoli gwastraff yn ganllawiau cryno i ddisgrifio sut y dylid rheoli gwastraff drwy gydol ei gylch bywyd (cynhyrchu i waredu).

# 5 Y Broses

## 5.1 Hierarchiaeth Wastraff

Rhaid ystyried hierarchaeth wastraff wrth benderfynu beth yw'r opsiwn gorau i reoli ffrwd wastraff. Mae hwn yn ofyniad gorfodol o dan Reoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011. Mae'n rhoi mwy o bwyslais ar atal gwastraff, ac yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau ystyried paratoi gwastraff i'w ailddefnyddio, yna cyfleoedd i ailgylchu, cyn opsiynau fel adfer ynni. Yn ôl y gyfraith, mae angen i ni ddefnyddio'r hierarchaeth wastraff er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau effeithiau ein gweithgareddau gwastraff i'r eithaf.




Ffigur 1: Triongl Hierarchaeth Wastraff

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i wahanu ei gwastraff yn ei darddiad a chanolbwyntio ar wahanu ffrydiau ailgylchu allweddol; caniau, papur, plastigau, bwyd a gwydr. Mae gwahanu yn y tarddiad yn gwella ansawdd ailgylchu ac mae'r egwyddor yn unol â Rheoliadau Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2011 a Cyflwynwyd Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023. Mae'r Rheoliadau yn nodi bod yn rhaid casglu deunyddiau fel papur, metel, plastig a gwydr ar wahân os oes angen er mwyn annog ansawdd uchel o ran ailgylchu'r deunydd.

## 5.2 Gwahanu a Gwaredu Gwastraff

Dylid cadw gwastraff o bob math mewn mannau diogel, dynodedig cyn ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei waredu. Rhaid i'r holl wastraff gael ei drin ymlaen

llaw (lle bo angen), ei ddidoli, ei labelu'n glir a'i gadw
mewn mannau fel na fydd yn symud. Rhaid i gyfleusterau storio ar gyfer gwastraff fod;

- yn ddiogel rhag mynediad anawdurdodedig
- yn gadarn
- wedi ei orchuddio a than glo

Rhaid i wastraff cael ei gludo oddi ar y safle gan gludwr gwastraff cofrestredig yn unig, a'i waredu mewn safle gwaredu gwastraff trwyddedig. Gall y tîm Cynaliadwyedd gadarnhau p’un a yw contractiwr wedi’i awdurdodi ar gyfer y ffrwd waith arfaethedig, ai peidio. Rhaid cael gwared ar ddeunyddiau gwastraff peryglus yn unol â Rheoliadau Gwastraff Peryglus 2005.

Rhaid peidio â gosod gwastraff peryglus ac anberyglus yn yr un cynhwysydd.

## 5.3 Cynwysyddion Gwastraff

### 5.3.1 Cynwysyddion Gwastraff yn yr Awyr Agored

Mae biniau 'cwad' wedi cael eu gosod ar draws campysau’r Brifysgol yn yr holl fannau cymunol, yn y mannau mwyaf prysur ac wrth fynedfeydd, er mwyn gallu gwahanu gwastraff ac ailgylchu. Yn yr awyr agored, defnyddir cwads/parau metel sy’n agor o’r top gyda bagiau du ar gyfer pethau nad oes modd eu hailgylchu a bagiau clir ar gyfer ffrydiau ailgylchu (papur a cerdyn, plastig, cartonau a chaniau, a ffoil a erosolau) ddim ond i’r fanyleb a gofnodir yn Ffigur 2. Mae Ffigur 3 yn tynnu sylw at gynwysyddion gwastraff allanol eraill a ddefnyddir gan y Brifysgol ar gyfer ffrydiau ailgylchu eraill.



Ffigur 2 – Bin ‘cwad’ allanol Prifysgol Abertawe




Ffigur 3 – Biniau allanol Prifysgol Abertawe, ailgylchu cymysg / ailgylchu gwydr yn unig / gwastraff bwyd yn unig / cwpanau coffi yn unig - ar archeb

### 5.3.2 Cynwysyddion Gwastraff dan do

(A) Mannau cymunedol a mannau gwaith swyddfa

Mae biniau cwad mewnol yn cael eu darparu ar gyfer yr holl fannau cymunedol a phrysur (gweler Ffigur 4). Bydd swyddfeydd a gofodau gwaith a rennir gan 10 neu fwy o staff yn cael bin cwad. Ar gyfer swyddfeydd â llai na 10 o staff, caiff cwads neu barau eu lleoli mewn man gyfagos mewn coridorau allanol, gan gynnig pwynt ailgylchu ar gyfer gwastraff swyddfa. Ni fydd swyddfeydd staff unig yn cael eu cyflenwi â cwads na pharau ond bydd biniau'n cael eu lleoli yn y coridorau allanol cyfagos, gan gynnig pwynt ailgylchu ar gyfer gwastraff swyddfa.

Ni chyflenwir biniau desg gan nad ydynt yn addas i wella cyfraddau ailgylchu, ac ni chaiff y rhai sydd yn y cylchrediad presennol eu gwasanaethu gan staff glanhau. Gall staff ofyn am gael gwared ar bin desg drwy'r system desg gymorth.

(B) Mannau dysgu - Neuaddau darlithio ac ystafelloedd dosbarth

Bydd gan fannau dysgu, megis neuaddau darlithio sy'n cynnal mwy na 100 o seddi, fin cwad wedi'i leoli o fewn y gofod. Bydd gan fannau dysgu sy'n cynnal llai na 100 o seddi finiau cwad a phâr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r mannau, mewn lle cyfagos yn y coridorau allanol, gan gynnig pwynt ailgylchu ar gyfer gwastraff staff a myfyrwyr.




Ffigur 4 - Biniau ailgylchu Prifysgol Abertawe.

(c) Labordai a gweithdai

At ddibenion Iechyd a Diogelwch, mae'n hanfodol bod labordai a gweithdai’r Brifysgol yn prynu ac yn gosod biniau gwastraff sy'n ddigonol ar gyfer y ffrydiau gwastraff a gynhyrchir, boed hynny'n wastraff wedi'i halogi'n gemegol, neu'n wastraff iechyd clinigol. Mae cael y math cywir o fin yn gwella diogelwch y labordy a'r gweithdy, yn ogystal â gwella glendid. Bellach, mae gan y Brifysgol fanyleb ar gyfer biniau gwrth-dân metel, gradd gwastraff clinigol, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer mannau gwaith arbenigol. Ceir canllawiau pellach **yma**[1] ar feintiau a chostau biniau. At ddibenion diogelwch ac i ddileu halogiad ni ddylid rhoi biniau cwad mewn labordai na gweithdai.

[1] Mae manylebau binau sy’n cydymffurfio ar gyfer gwastraff clinigol neu a gafodd ei halogi’n gemegol ar gael yn https://staff.swansea.ac.uk/media/compliant-chemically-contaminated-and-clinical-waste-bins.pdf

| | |
|---|---|
| **Deilydd sachau 80 litr metel**<br> | • Metel<br>• Agor gyda phedal<br>• Llawrydd<br>• Agor yn y blaen<br>• Gwrth-dân<br>• Hawdd i'w lanhau<br>• Gwrth-facterol |

Ffigur 5 – enghraifft o finiau yn Cydymffurfio ar gyfer labordai a'r gweithdai

Rhaid bod gan bob bin labordy a gweithdy label glir, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a gwahanu gwastraff yn y ffordd gywir.

**Rhaid peidio â** rhoi biniau cwad a phâr mewn labordai na gweithdai.

## 5.4 Nodiadau Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff ("WMGN")

Mae amrywiaeth o nodiadau cyfarwyddyd rheoli gwastraff wedi cael eu datblygu i roi arweiniad ar ystod eang o wastraff a reolir, a gwastraff peryglus a gynhyrchir gan y Brifysgol. Adolygir pob nodyn cyfarwyddyd bob dwy flynedd (neu'n gynt os oes angen) a chânt eu diweddaru yn unol â newidiadau i reoliadau gwastraff, a rheolaethau gweithredol. Mae pob nodyn canllaw yn amlinellu: gofynion dyletswydd gofal gwastraff, cod CGE (cod gwastraff Ewropeaidd), disgrifiad o'r gwastraff, gofynion storio mewnol, ac mae'n cadarnhau'r weithdrefn waredu gywir. Mae'r holl nodiadau cyfarwyddyd wedi'u datblygu yn unol â'r rheoliadau gwastraff cyfredol. Amlinellir y WMGN craidd isod ond gellir gweld y rhestr gyfredol ar y tudalennau cynaliadwyedd ar wefan y Brifysgol[2].

**Gwastraff nad yw'n beryglus**

- WMGN01 Non-Recycling
- WMGN02 Plastig a Cartonau
- WMGN03 Paper
- WMGN04 Food

[2] https://www.swansea.ac.uk/cy/cynaliadwyedd/gwastraff-ac-ailgylchu/#nodyn-arweiniad-rheoli-gwastraff=is-expanded

- WMGN05 Confidential Waste
- WMGN06 Cardboard
- WMGN07 Glass
- WMGN08 Wood
- WMGN09 Metal
- WMGN10 Coffee Cups
- WMGN11 Plasterboard
- WMGN12 Stationary
- WMGN13 Used Cooking Oil

**Cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ("WEEE") peryglus**

- WMGN14 Toner Cartridges
- WMGN15 Batteries
- WMGN16 Lightbulbs/Fluorescent Tubes
- WMGN17 WEEE
- WMGN18 Paint
- WMGN19 Aerosols

**Gwastraff Cemegol**

- WMGN20 Chemical Waste Classification
- WMGN21 Chemically Contaminated Laboratory Solid Waste (Red Bag)
- WMGN22 Laboratory and Workshop Sharps
- WMGN23 Laboratory and Workshop Glass and Glass Sharps

**Gwastraff clinigol a gofal iechyd peryglus, a heb fod yn beryglus**

- WMGN24 Anatomical Waste – Human & Animal; Non-chemical & Chemically Preserved (Red)
- WMGN25 Infectious Clinical Waste (Orange Bag)
- WMGN26 Infectious and Chemically Contaminated Solid and Sharps Waste (Yellow bag/box)
- WMGN27 Infectious Solid and Sharps Cytotoxic & Cytostatic Waste (Purple)
- WMGN28 Other Medicine Waste (Blue)
- WMGN29 Offensive Waste (Black/Yellow)
- WMGN30 Biological

**Peirianneg**

- WMGN31 Oil-Contaminated Solid Waste
- WMGN32 Oil Waste

Os oes gennych lif gwastraff nad yw wedi'i gynnwys uchod, cysylltwch â estates-waste@abertawe.ac.uk.

## 5.5 Trwyddedau Gwastraff

Mae angen un o’r canlynol ar gyfer unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â storio, defnyddio, trin neu waredu gwastraff ar dir y Brifysgol:

- Trwydded amgylcheddol gan y rheoleiddiwr amgylcheddol, a/neu:
- Cofrestru eithriad gyda'r rheoleiddiwr amgylcheddol, a/neu:
- Cydymffurfio â thelerau ac amodau eraill lle nad yw'r uchod yn ofynnol

Gan fod cyfaint y gwastraff peryglus a gynhyrchir gan y Brifysgol yn uwch na throthwy Cyfoeth Naturiol Cymru, sef 500kg, mae pob campws wedi'i gofrestru fel cynhyrchydd gwastraff peryglus. Bydd y tîm cynaliadwyedd yn adnewyddu'r cofrestriad blynyddol. I gael rhagor o fanylion ynghylch trwyddedau ac esemptiadau gwastraff, os ydych chi'n gyfrifol am storio neu brosesu unrhyw wastraff sy'n barod i'w waredu, cysylltwch ag: estates-waste@abertawe.ac.uk

Mae safleoedd y Brifysgol hefyd wedi'u cofrestru fel cludydd/brocer/deliwr gwastraff haen is. Bydd y drwydded hon yn para am gyfnod amhenodol, oni chaiff ei dirymu neu ei diddymu. Mae pob safle’r Brifysgol wedi'i gofrestru; mae hyn yn caniatáu i'r Brifysgol drosglwyddo ei gwastraff anberyglus ei hun, yn unig, mewn cerbydau sy'n eiddo i'r Brifysgol, rhwng ei safleoedd. Os ydych yn cario gwastraff ar briffordd gyhoeddus, mae'n rhaid i chi gario trwydded yn eich cerbyd. Gellir cael y rhain oddi wrth: estates-waste@abertawe.ac.uk

## 5.6 Cludwr Gwastraff Awdurdodedig

Veolia yw prif gontractwr gwastraff Prifysgol Abertawe; mae Veolia yn rheoli rhagor o is-gontractwyr ac yn gyfrifol amdanynt. Rhaid i’r holl gontractwyr gwastraff gael eu hawdurdodi fel cludwyr cofrestredig gwastraff rheoledig. Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn gwirio tystysgrifau cofrestru a dyddiadau dod-i-ben yr holl gontractwyr gwastraff sy'n gysylltiedig â'r contract rheoli gwastraff. Caiff tystiolaeth o gofrestriadau a thrwyddedau eu storio'n ganolog gan y tîm cynaliadwyedd.

## 5.7 Cod y Catalog Gwastraff Ewropeaidd (CGE)

Bydd gan yr holl wastraff a gynhyrchir god CGE cyfatebol. Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yn rhaid i unrhyw wastraff a gynhyrchir ar gyfer ei ailgylchu, neu ei waredu, gael ei ddosbarthu'n gywir gan ddefnyddio cod CGE. Mae CGE yn god a ddefnyddir i nodi gwastraff, fel a restrir yng nghatalog gwastraff Ewrop. Cyfeirir ato hefyd fel Rhestr o Wastraff neu'r Cod Dosbarthu Gwastraff.

Mae'r Catalog Gwastraff Ewropeaidd yn cynnwys tua 650 o godau wedi'u rhannu ar draws 20 Pennod. Mae pob pennod o'r catalog wedi'i his-rannu'n gategorïau. Mae chwe digid i bob Cod CGE. Mae seren wrth ymyl y Cod yn dynodi bod y gwastraff yn cael ei ystyried yn beryglus.

Yn y Brifysgol mae codau CGE ar gyfer gwastraff a reolir yn cael eu nodi gan y tîm cynaliadwyedd ac yn cael eu defnyddio gan y contractwr penodedig ar gyfer pob dogfen dyletswydd gofal. Ar gyfer gwaredu gwastraff cemegol, caiff CGE ei bennu

gan y cemegydd a benodir gan y contractiwr cyn ei waredu. Ni chaniateir i staff y Brifysgol gydlynu gwarediadau gwastraff yn annibynnol y tu allan i gylch gwaith contract presennol Veolia. Rhaid i staff beidio â chymhwyso CGE yn uniongyrchol ond cysylltu yn hytrach ag estates-waste@swansea.ac.uk am arweiniad.

## 5.8 Trosglwyddo Gwastraff: Nodiadau Trosglwyddo ac Anfon

Rhaid cofnodi pob symudiad gwastraff ar nodyn trosglwyddo gwastraff neu nodyn anfon gwastraff peryglus (lle bo'n berthnasol ar gyfer gwastraff peryglus). Rhaid i bob nodyn trosglwyddo gwastraff (“WTN”) gael ei chadw am ddwy flynedd, a rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol;

- Disgrifiad ysgrifenedig o’r gwastraff
- Ein cod SIC (85.42/1: Addysg Uwch)
- Y cod gwastraff 6 digid (gweler y rhestr CGE)
- Pa faint sydd i'w waredu a’r cyfeiriad casglu
- Cadarnhad ein bod wedi defnyddio'r hierarchaeth wastraff

Rhaid cadw pob nodyn anfon gwastraff peryglus (“HWCN”) am dair blynedd, a chynnwys yr wybodaeth ganlynol;


- Disgrifiad ysgrifenedig o'r gwastraff
- Ein cod SIC (85.42/1: Addysg Uwch)
- Y cod gwastraff 6 digid (gweler y rhestr CGE)
- "Cod safle" gwastraff peryglus y Brifysgol
- Pa faint sydd i'w waredu a’r cyfeiriad casglu
- Part E: Part E: Consignee Certificate[3] (rhaid dychwelyd hon i'r Brifysgol ar ôl cwblhau'r ddogfen er mwyn cydymffurfio a bod yn archwiliadwy)Cadarnhad bod yr hierarchaeth wastraff wedi'i defnyddio

**NID YW** anfonebau’n gyfwerth â Nodiadau Trosglwyddo Gwastraff na Nodiadau Anfon Gwastraff Peryglus.

Mae Ffigur 6 yn dangos enghraifft o WTN (mae enghreifftiau eraill o nodiadau trosglwyddo gwastraff ar gael drwy wefan y Llywodraeth[4]). Mae adran A a B i'w cwblhau gan y Brifysgol, tra bod adran C a D i'w llenwi gan y cwmni rheoli gwastraff penodedig.

[3] link

[4] https://www.gov.uk/government/publications/duty-of-care-waste-transfer-note-template



**Duty of care: waste transfer note** Keep this page and copy it for future use. Please write as clearly as possible.

**Section A – Description of waste**

**A1** Description of the waste being transferred

List of Waste Regulations code(s)

**A2** How is the waste contained?

Loose ☐ Sacks ☐ Skip ☐ Drum ☐

Other ☐

**A3** How much waste? For example, number of sacks, weight

**Section B – Current holder of the waste – Transferor**

**By signing in Section D below I confirm that I have fulfilled my duty to apply the waste hierarchy as required by Regulation 12 of the Waste (England and Wales) Regulations 2011** Yes ☐

**B1** Full name

Company name and address

Postcode SIC code (2007)

**B2** Name of your unitary authority or council

**B3** Are you:

The producer of the waste? ☐

The importer of the waste? ☐

The local authority? ☐

The holder of an environmental permit? ☐

Permit number

Issued by

Registered waste exemption? ☐

Details, including registration number

A registered waste carrier, broker or dealer? ☐

Registration number

Details (are you a carrier, broker or dealer?)

**Section C – Person collecting the waste – Transferee**

**C1** Full name

Company name and address

Postcode

**C2** Are you:

The local authority? ☐

**C3** Are you:

The holder of an environmental permit? ☐

Permit number

Issued by

Registered waste exemption? ☐

Details, including registration number

A registered waste carrier, broker or dealer? ☐

Registration number

Details (are you a carrier, broker or dealer?)

**Section D – The transfer**

**D1** Address of transfer or collection point

Postcode

Date of transfer (DD/MM/YYYY)

**D2** Broker or dealer who arranged this transfer (if applicable)

Postcode

Registration number

Time(s)

**Transferor's signature**

**Transferee's signature**

Ffigur 6 – enghraifft o nodyn trosglwyddo gwastraff

Mae Ffigur 7 yn dangos enghraifft o WNC (mae enghreifftiau eraill o nodyn anfon gwastraff peryglus ar gael ar wefan y Llywodraeth[5]).). Mae gan y nodyn anfon 5 rhan (A i E). Mae cynhyrchydd neu ddeiliad y gwastraff yn llenwi rhannau A, B a C. Bydd y traddodwr (casglwr y gwastraff) yn gwirio rhan A, B, C ac yn cwblhau rhan D. Bydd rhan E yn cael ei chwblhau gan y traddodai (y person sy'n derbyn y gwastraff) a bydd yn dychwelyd y ffurflen wedi'i chwblhau at y cynhyrchydd gwastraff, a'i chadw am 3 blynedd.

[5] https://www.gov.uk/government/publications/hazardous-waste-consignment-note

Form HWCN01v112

**The Hazardous Waste Regulations 2005: Consignment Note**

Environment Agency

**PRODUCER'S/HOLDER'S/CONSIGNOR'S COPY** (Delete as appropriate)

**PART A Notification details**

1 Consignment note code: / 

2 The waste described below is to be removed from (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile):

3 The waste will be taken to (name, address and postcode):

4 The waste producer was (if different from 2) (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile):

**PART B Description of the waste** — If continuation sheet used, tick here

1 The process giving rise to the waste(s) was:

2 SIC (2007) for the process giving rise to the waste: . /

3 WASTE DETAILS (where more than one waste type is collected all of the information given below must be completed for each EWC identified)

| Description of waste | List of wastes (EWC code)(6 digits) | Quantity (kg) | The chemical/biological components in the waste and their concentrations are: Component | Concentration (% or mg/kg) | Physical form (gas, liquid, solid, powder, sludge or mixed) | Hazard code(s) | Container type, number and size |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

**The information given below is to be completed for each EWC identified**

| EWC code | UN identification number(s) | Proper shipping name(s) | UN class(es) | Packing group(s) | Special handling requirements |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |

**PART C Carrier's certificate**

**(If more than one carrier is used, please attach schedule for subsequent carriers. If schedule of carriers is attached tick here.** ☐**)**

I certify that I today collected the consignment and that the details in A2, A3 and B3 are correct and I have been advised of any specific handling requirements.

Where this note comprises part of a multiple collection the round number and collection number are: /

1 Carrier name:

On behalf of (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile):

2 Carrier registration no./reason for exemption:

3 Vehicle registration no. (or mode of transport, if not road):

Signature

Date D D M M Y Y Y Y Time H H M M

**PART D Consignor's certificate**

I certify that the information in A, B and C has been completed and is correct, that the carrier is registered or exempt and was advised of the appropriate precautionary measures. All of the waste is packaged and labelled correctly and the carrier has been advised of any special handling requirements.

I confirm that I have fulfilled my duty to apply the waste hierarchy as required by Regulation 12 of the Waste (England and Wales) Regulations 2011.

1 Consignor name:

On behalf of (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile):

Signature

Date D D M M Y Y Y Y Time H H M M

**PART E Consignee's certificate** (where more than one waste type is collected all of the information given below must be completed for each EWC)

| Individual EWC code(s) received | Quantity of each EWC code received (kg) | EWC code accepted/rejected | Waste management operation (R or D code) |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

1 I received this waste at the address given in A3 on: Date D D M M Y Y Y Y Time H H M M

2 Vehicle registration no. (or mode of transport if not road):

3 Where waste is rejected please provide details:

I certify that waste permit/exempt waste operation number:

authorises the management of the waste described in B at the address given in A3.

Where the consignment forms part of a multiple collection, as identified in Part C, I certify that the total number of consignments forming the collection are:

Name:

On behalf of (name, address, postcode, telephone, e-mail, facsimile):

Signature

Date D D M M Y Y Y Y Time H H M M

Ffigur 7 – enghraifft o nodyn anfon gwastraff peryglus

**Rhaid anfon copi o'r holl nodiadau trosglwyddo gwastraff neu nodiadau anfon gwastraff peryglus a dderbyniwyd at estates-waste@abertawe.ac.uk**

### 5.8.1 Cadw dogfennau

Cedwir pob WTN/HWCN yn ganolog gan swyddog gwastraff ac ailgylchu penodedig y Brifysgol. Mae dogfennau eraill sydd i'w coladu a'u cadw gyda'r tîm cynaliadwyedd yn cynnwys:

- Tystysgrifau dinistrio cadarn ar gyfer casgliadau gwastraff cyfrinachol
- Casglu WEEE electronig
- Gwaredu gwastraff ymbelydrol

## 5.9 Monitro ac Adrodd ar Wastraff

Mae Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu'r Brifysgol yn casglu ac yn coladu data gwastraff ac ailgylchu'r Brifysgol yn fisol ar gyfer pob contractiwr gwastraff. Caiff data ei adrodd yn flynyddol i HESA ac mae ar gael ar gyfer sgorio'r Gynghrair Werdd. Mae'n ofynnol i bob coleg/uned gefnogi'r broses o goladu a chyflwyno data a dogfennaeth yn brydlon i'r tîm Cynaliadwyedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth a chefnogi'r broses o adolygu arferion rheoli gwastraff a'u gwella'n barhaus.

## 5.10 Contractwyr

Dim ond cwmnïau rheoli gwastraff dan gontract cymeradwy y gellir eu defnyddio i waredu gwastraff Prifysgol. Ceir rhagor o fanylion am y contractwyr hyn drwy gysylltu â'r tîm Cynaliadwyedd: estates-waste@abertawe.ac.uk. Mae'r swyddog gwastraff ac ailgylchu yn sicrhau bod yr holl drwyddedau perthnasol yn cael eu cadw gan y contractwyr a bod gofynion dyletswydd gofal yn cael eu cynnal. Cyfeiriwch at **8.1.10 Anghenion a Disgwyliadau gan Gontractwyr** am arweiniad pellach.

Mae contractwyr y Brifysgol yn destun archwiliadau ddyletswydd gofal rheolaidd er mwyn adolygu cydymffurfiaeth.

## 5.11 Rheoli Contractau Gwastraff y Brifysgol

Mae prif gontract gwastraff y Brifysgol gyda Veolia yn cael ei reoli a'i gydlynu o ddydd i ddydd gan y tîm cynaliadwyedd, gyda chyfarfod contractau misol yn cael ei gynnal i werthuso darpariaeth gwasanaeth, a chanlyniadau allweddol i'w cyflawni. Caiff anfonebau, adroddiadau casglu data gwastraff misol a dogfennaeth dyletswydd gofal eu cyflenwi dan y contract i'r swyddog gwastraff ac ailgylchu. Caiff yr holl ddata a'r anfonebau eu dilysu, a chaiff yr ad-daliadau gwastraff eu cymhwyso drwy gyllid Ystadau. Mae pob WMGN yn nodi os codir tâl am waredu ar gyfer ffrwd gwastraff benodol.

Caiff staff y Brifysgol eu cyfarwyddo drwy'r WMGN i ddefnyddio'r system desg gymorth ar gyfer rhai gwasanaethau casglu a gwaredu gwastraff. Bydd y gorchmynion gwaith hyn yn cael eu cyfeirio at y tîm Cynaliadwyedd i weithredu gyda'r contractiwr priodol.

Mae'r tîm cynaliadwyedd yn cydgysylltu cyllideb
gwastraff y Brifysgol, sy'n cynnwys gwastraff dyddiol a'r gwasanaethau llwybr, ond codir ffioedd ar gyfer trefniadau gwastraff arbenigol a phwrpasol. Am ragor o wybodaeth, gweler y WMGN perthnasol neu cysylltwch ag estates-waste@abertawe.ac.uk.

### 5.12 Rheoli Gwastraff ar gyfer Digwyddiadau'r Brifysgol

Mae'r Brifysgol yn cynnal cannoedd o ddigwyddiadau ar gampysau Singleton a'r Bae bob blwyddyn. Mae'r tîm cynaliadwyedd yn mynychu cyfarfodydd rheoli digwyddiadau gweithredol bob wythnos, ac yn sicrhau y darperir casgliadau ychwanegol, biniau digwyddiadau, yn ogystal â gweithredwyr casglu gwastraff ar gyfer pob digwyddiad graddfa fawr megis diwrnodau agored a Varsity.

I drefnu gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu ychwanegol ar gyfer digwyddiad, anfonwch e-bost i estates-waste@abertawe.ac.uk.

### 5.13 Cynllun Rheoli Gwastraff

Mae cynllun rheoli gwastraff presennol y Brifysgol, ar gael ar dudalennau gwe tîm Cynaliadwyedd ar y wefan. Diben y cynllun rheoli gwastraff yw cefnogi'r gwaith o weithredu strategaeth cynaliadwyedd 2020-2025 y Brifysgol, gan fynd i'r afael yn benodol â'r amcanion a'r targedau a nodwyd. Mae'r cynllun yn nodi amcanion a thargedau CAMPUS ar gyfer camau sy'n ymwneud â rheoli gwastraff, olrhain cynnydd yn flynyddol i fesur effaith a chefnogi gwelliant parhaus o dan ein system rheoli amgylcheddol ardystiedig ISO14001:2015.

### 5.14 Cyfathrebu am Reoli Gwastraff

Caiff diwygiadau i'r ddogfen hon, neu unrhyw ddogfen ganllaw arall sy'n gweithredu ynghylch gwastraff, a chanllawiau sy'n deillio o newidiadau i ddeddfwriaeth, eu cyfleu drwy'r pwyllgorau cyfrifoldeb corfforaethol, gwefan y Brifysgol, e-bost a phosteri lle bo hynny'n briodol.

## 6 Effeithiau a chamau gweithredu ar gyfer diffyg cydymffurfiad

Gallai methu â chydymffurfio â'r weithdrefn hon arwain at:

- Ddiffyg cydymffurfiaeth â gofynion Ecogampws a safon ISO 14001:2015.

Eir i'r afael â gwyro oddi wrth y weithdrefn hon yn y weithdrefn **10.1 Diffyg Cydymffurfiaeth, a Chamau Gweithredu Cywirol ac Ataliol.**

# 7 Nodau Datblygu Cynaliadwy Perthnasol y Cenhedloedd Unedig




# 8 Rheoli Fersiynau

| Dyddiad | Fersiwn | Diweddariad |
|---|---|---|
| 28/02/2019 | 1.0 | Dogfen newydd |
| 29/05/2019 | 2.0 | Ehangu'n sylweddol ar arferion rheoli gwastraff |
| 16/09/2019 | 3.0 | Trosglwyddo i fformat hygyrch a mân newidiadau gweinyddol |
| 18/06/2020 | 4.0 | Diweddariad ar Rolau a Chyfrifoldebau; cynnwys disgrifiadau Gweithredwyr Veolia a staff Gweithwyr Tir. |
| 01/05/24 | 5.0 | Diweddariad yn unol â newidiadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn Rheoliadau Gofynion Gwahanu Gwastraff (Cymru) 2023. |
| | | |